Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

Hybrid – Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom

Dyddiad: 8 Mehefin 2022

Amser: 11.17 – 12.14

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12864

O bell

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Russell George AS (Cadeirydd) Rhun ap Iorwerth AS Gareth Davies AS Mike Hedges AS Jack Sargeant AS
Tystion:	Yr Athro Amanda Kirby, ADHD Foundation Yr Athro Anita Thapar
Staff y Pwyllgor:	Helen Finlayson (Clerc) Claire Morris (Ail Glerc) Lowri Jones (Dirprwy Glerc) Philippa Watkins (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AS.

2 Anghydraddoldebau iechyd meddwl: sesiwn dystiolaeth gydag academyddion

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Amanda Kirby a'r Athro Anita Thapar.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Ymateb gan y Cadeirydd i Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch deiseb P-06-1241 Llywodraeth Cymru i gwrdd â chynulleidfa ehangach o ofalwyr di-dâl

3.1 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

3.2 Gwybodaeth ychwanegol gan yr Athro Rob Poole, y Ganolfan Iechyd Meddwl a Chymdeithas ym Mhrifysgol Bangor yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 4 Mai

3.2 Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol.

3.3 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU

3.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

3.4 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch Gweithrediaeth y GIG i Gymru

3.4 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

3.4 (a) Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y 34 o sefydliadau a ysgrifennodd yn ddiweddar at y Pwyllgor, ynghylch sefydlu Gweithrediaeth y GIG annibynnol, i roi iddynt gopi o lythyr y Gweinidog ac i ofyn am eu barn ar ymateb y Gweinidog.

3.5 Ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i adroddiad y Pwyllgor: Aros yn iach? Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru

3.5 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

5 Anghydraddoldebau iechyd meddwl: trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.